

# Awgrymiadau Arbed Ynni

01352 703425

DEEPadmin@flintshire.gov.uk

Cyngor Sir y Fflint

Flintshire County Council

## Peidiwch â golchi'ch arian i ffwrdd



Ceisiwch olchi llwyth llawn yn hytrach na hanner llwyth. Mae golchi llai o weithiau ar dymheredd is yn defnyddio llai o drydan ac yn arbed arian. Osgowch sychu dillad ar wresogydd gan fod hyn yn lleihau ei effeithlonrwydd ac yn gallu achosi tamprwydd ac anwedd.

## Arbedion yn y gegin



Berwch hynny o ddŵr rydych ei angen a dim mwy.  Golchwch y llestri gyda llaw yn lle defnyddio peiriant. Gallai rhostio cig mewn sosban bwysedd haneru'r amser coginio. Mae ffrïwr aer hefyd yn opsiwn cost-effeithiol. Wrth newid nwyddau gwyn am rai newydd, meddyliwch am y modelau mwy effeithlon.

## Amser cawod



Ceisiwch dreulio llai o amser yn y gawod bob dydd gan fod hyn yn arbed ar ddŵr ac ynni.  Os nad oes gennych gawod drydan, gallwch ddefnyddio llai o ddŵr poeth ac arbed arian drwy osod pen cawod effeithlon o ran dŵr.

## Diffodd 'standby'




Diffoddwch a thynnu unrhyw gyfarpar gwefru o'r wal os nad ydych yn ei ddefnyddio.  Bydd pethau â golau 'standby', sgrin neu sy'n boeth yn defnyddio trydan.

## Rheoli eich boeler




Defnyddiwch amseryddion a thermostatau'n gywir. Cynheswch eich cartref pan mae angen yn unig. Rhowch eich boeler i danio am gyfnod byr ychydig cyn bod ei angen a'i osod i ddiffodd cyn mynd i'r gwely. Mae hyn yn arbed arian drwy beidio gwastraffu gwres. Gallwch hefyd arbed arian drwy ostwng y gwres 1 gradd. Cadwch y boeler mewn cyflwr da a rhoi gwasanaeth iddo'n gyson.

## Diffodd eich goleuadau



Diffoddwch y goleuadau os nad ydych yn eu defnyddio. Ceisiwch newid bylbiau arferol am rai LED effeithlon.

## Effeithlonrwydd Gwresogyddion



Cadwch unrhyw geriach oddi wrth wresogyddion er mwyn llif aer ac iddynt allu cynhesu ystafelloedd yn fwy effeithlon. Ar waliau allanol, gall paneli adlewyrchu y tu ôl i wresogyddion adlewyrchu mwy o wres yn ôl i'r ystafell a'i chynhesu ragor. Gallwch hefyd wneud hyn yn rhad drwy ddefnyddio ffoil alwminiwm.

## Gwres yr Haul



Gallwch ddefnyddio'r haul i gynhesu ystafell. Gwnewch y mwyaf o wres yr haul drwy ganiatáu i oleuni'r haul ddod i'ch eiddo lle bo modd. I atal gwres rhag dianc o'r ystafell, caewch y llenni a'r bleindiau ar ôl y machlud.

# Cyngor Ychwanegol

## Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth

Gwiriwch gyda'ch cyflenwr a ddylech chi fod ar y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth. Os ydych chi'n fregus oherwydd cyflyrau iechyd neu'ch oedran, gallech fod â hawl i fwy o gymorth os yw'r trydan yn diffodd neu i wasanaethau ychwanegol ar gyfer eich anghenion, fel Cynllun Adnabod neu Wasanaeth Darllen Mesurydd..

## Economi 7

Os oedd eich gwres ar Economi 7 o'r blaen, mae'n bwysig rhoi gwybod i'ch cyflenwr am eich system wresogi newydd a gofyn iddynt wirio eich bod ar y tariff gorau sydd ar gael, ac ystyried newid eich cyflenwr os oes angen.

## Newid Cyflenwr*

Mae nifer o safleoedd cymharu wedi'u hachredu'n swyddogol sy'n eich galluogi i nodi data am eich defnydd o ynni a'r dull talu sydd orau gennych er mwyn dod o hyd i arbedion posib' ar eich biliau ynni.  Mantais safleoedd newid cyflenwr achrededig yw eu bod yn cael eu diweddaru'n gyson felly dylai'r wybodaeth bob tro fod yn ddibynnol ac yn gyfredol. Gallwch gymharu prisiau ynni ar:

www.uswitch.com

www.moneysupermarket.com

www.simplyswitch.com

www.energyhelpline.com

www.citizensadvice.org.uk/wales

Mae'n fwy anodd cymharu prisiau olew neu LPG ond mae hi werth cysylltu â 2 neu 3 gyflenwr am ddyfynbris cyn archebu, neu holi'n lleol a oes consortiwm prynu olew yn eich ardal chi.

## Disgownt Cartrefi Clyd

Os ydych chi'n gymwys, fe gewch £150 oddi ar eich biliau ynni y gaeaf hwn. I fod yn gymwys, bydd angen i chi neu eich partner fod â chyflenwr trydan sy'n rhan o'r cynllun ac mae'n rhaid i un ohonoch hawlio un ai'r gyfran Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn neu 'fudd-dal cymwys' arall. Nid oes angen i chi wneud cais am hwn – bydd y Llywodraeth yn asesu eich costau ynni ar sail eich amgylchiadau. Os ydych chi'n gwsmer credyd, bydd yr arian yn cael ei ychwanegu i'ch cyfrif trydan. Os ydych chi ar fesurydd talu-ymlaen-llaw, cewch daleb y gallwch ei defnyddio i dalu am drydan ar eich mesurydd.